ADC	-39,693	-36,500	-33,000	TATH	39,693	36,500	33,000	Gweithredu ardaloedd adfywio strategol
ADC	-3,900	-3,400	-2,000	TATH	3,900	3,400	2,000	Rheoli'r gwaith o greu ardaloeedd adfywio
ADC	-11,500	-11,577	-10,888	TATH	11,500	11,577	10,888	Adfywio a Gwasanaethau Lleol Eraill – Cyllid Cyfalaf Cyffredinol
ADC	-250	0	0	TATH	250	0	0	Cyfalaf Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo

MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth

Adnoddau

O	£000			£000			£000		
	2011-12	2012-13	2013-14	2011-12	2012-13	2013-14	2011-12	2012-13	2013-14
TATh	-8,390	-8,587	-8,701	BMTG	8,390	8,587	8,701	Cynyddu'r galw ymhliith ymwelwyr a lefel eu diddordeb	
TATh	-4,357	-4,136	-3,925	BMTG	4,357	4,136	3,925	Datblygu Profiad yr Ymwelydd	
TATh	-13,858	-13,958	-14,058	AS	13,858	13,958	14,058	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	
TATh	-20	-20	-20	AS	20	20	20	Yr Iaith Gymraeg	

Cyfalaf

O	£000			£000			£000		
	2011-12	2012-13	2013-14	2011-12	2012-13	2013-14	2011-12	2012-13	2013-14
TATh	-50	-100	-100	AS	50	100	100	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	

MEG Materion Gwledig

Adnoddau

O	£000			£000			Disgrifiad o'r Newidiadau
	2011-12	2012-13	2013-14	2011-12	2012-13	2013-14	
MG	-20	-20	-20	BMTG	20	20	Rhannu Costau a Chyfrifoldeb
MG	-7,360	-7,355	-7,350	BMTG	7,360	7,355	Gwneud Taliadau yn unol â rheola'u'r UE a Llywodraeth Cymru
MG	-62,512	-61,818	-62,993	BMTG	62,512	61,818	Cyflwynor rhagleni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig
MG	-806	-806	-806	BMTG	806	806	Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith yr Adran
MG	-1,642	-1,542	-1,442	BMTG	1,642	1,542	Datblygu, rheoli a gorfodi Pysgodfeydd a Dyframaeth Cymru
MG	-5,275	-5,000	-5,000	BMTG	5,275	5,000	Datblygu a marchnata sector bwyd a diod Cymru
MG	-1,705	-1,705	-1,705	BMTG	1,705	1,705	Diwallu anghenion cymunedau gwledig a phrawfesur camau a gymerir gan Llywodraeth Cymru o safbwyt anghenion cefn gwlad
MG	-22,640	-22,260	-22,260	ADC	22,640	22,260	Gwarchod a Gwella lechyd a Lles Anifiliaid
MG	-352	-302	-252	ADC	352	302	Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith yr Adran
MG	-52	-52	-52	ADC	52	52	Gwarchod ieched planhigion a datblygu polisiau sy'n ymwnueud ag addasu genetig
MG	-21,600	-21,200	-20,700	ADC	21,600	21,200	Gweithredu'r Strategaeth Goetiredoedd newydd drwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru

Cyfalaf	O	£000			I	£000			Disgrifiad o'r Newidiadau
		2011-12	2012-13	2013-14		2011-12	2012-13	2013-14	
MG	-11,601	-11,369	-10,723	BMTG	11,601	11,369	10,723	Cyflwyno'r rhaglen o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig	
MG	-1,400	-1,200	-1,000	BMTG	1,400	1,200	1,000	Datblygu, rheoli a gorfodi Pysgodfeydd a Dyframaeth Cymru	
MG	-2,790	-2,595	-2,313	BMTG	2,790	2,595	2,313	Datblygu Profiad yr Ymwelydd	
MG	-38	-38	-38	ADC	38	38	38	Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith yr Adran	
MG	205	205	205	ADC	-205	-205	-205	Gweithredu'r Strategaeth Goetiroedd newydd drwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru	

MEG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

Adnoddau

O	£000			I	£000			Disgrifiad o'r Newidiadau
	2011-12	2012-13	2013-14		2011-12	2012-13	2013-14	
GCPH	-9,530	-9,187	-8,746	GCG	9,530	9,187	8,746	Arian Cyfatebol
GCPH	-15,757	-15,190	-14,461	LILCh	15,757	15,190	14,461	AGGCC
GCPH	-2,824	-2,722	-2,591	LILCh	2,824	2,722	2,591	Arolygiaeth lechyd Cymru
GCPH	-13,437	-12,968	-12,364	LILCh	13,437	12,968	12,364	Estyn
GCPH	-400	-400	-400	LILCh	400	400	400	Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad
GCPH	-1,560	-1,500	-1,300	LILCh	1,560	1,500	1,300	Cydweithredu Lleol a Rhanbarthol
GCPH	-3,197	-3,062	-3,028	LILCh	3,197	3,062	3,028	Effeithlonrwydd ac Arloesi

Cyfalaf	£000				£000				Disgrifiad o'r Newidiadau
	2011-12	2012-13	2013-14	I	2011-12	2012-13	2013-14		
GCPH	-16,738	-15,569	-13,878	GCG	16,738	15,569	13,878	Arian Cyfatebol	
GCPH	-339	-315	-281	LILCh	339	315	281	Estyn	

Atodiad 2 – Cysoni Cyllideb Bloc Cymru a Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol sy'n nodi'r newidiadau yn yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2011-12 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos y cyllidebau ar lefel weinyddol, tra bo'r ffigurau yn y Cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol yn seiliedig ar adnoddau.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o eitemau sy'n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydynt yn sgorio fel rhan o'r Adnoddau sy'n Ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn cysoni'r cyllidebau gweinyddol a'r cyllidebau adnodd ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant.

Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

	£000
DEL	
Adnoddau	5,974,139
Cyfalaf	262,103
AME	
Adnoddau	184,699
Cyfalaf	-
TME	6,420,941
Cysoni ag Adnoddau	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCAU a chyrrf y GIG	-326,574
Benthycâ â Chymorth	-4,570
Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol (a'r costau casglu)	-887,859
Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	5,201,938

Llywodraeth Leol a Chymunedau

	£000
DEL	
Adnoddau	4,834,155
Cyfalaf	281,172
AME	
Adnoddau	37,721
Cyfalaf	-
TME	5,153,048
Cysoni ag Adnoddau	
Trethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy (a'r costau casglu)	-872,172
Benthycâ â Chymorth	-13,152
Menter Cyllid Preifat (PFI)	-8,101
Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	4,259,623

Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

	£000
DEL	
Adnoddau	185,646
Cyfalaf	94,588
AME	
Adnoddau	41,402
Cyfalaf	-
TME	321,636
Cysoni ag Adnoddau	
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	-1,704
Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	319,932

Addysg a Sgiliau

	£000
DEL	
Adnoddau	1,630,201
Cyfalaf	169,973
AME	
Adnoddau	-115,649
Cyfalaf	240,951
TME	1,925,476
Cysoni ag Adnoddau	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	-213
Benthycâ â Chymorth	-42,660
Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	1,882,603

Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

	£000
DEL	
Adnoddau	269,067
Cyfalaf	60,642
AME	
Adnoddau	-
Cyfalaf	-
TME	329,709
Cysoni ag Adnoddau	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	-3,090
Benthycâ â Chymorth	-11,441
Yr Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	315,178

Tai, Adfywio a Threftadaeth

	£000
DEL	
Adnoddau	284,172
Cyfalaf	316,738
AME	
Adnoddau	-69,735
Cyfalaf	-
TME	531,175
Cysoni ag Adnoddau	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	-5,533
Benthyc a Chymorth	-48,388
Yr Adnoddau y Gwnaed Cais	477,254
Amdanynt	

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

	£000
DEL	
Adnoddau	340,630
Cyfalaf	30,720
AME	
Adnoddau	-1,100
Cyfalaf	-
TME	370,250
Cysoni ag Adnoddau	
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	-8,903
Yr Adnoddau y Gwnaed Cais	361,347
Amdanynt	

Atodiad 3 – Geirfa

Adnoddau	Gwariant cyfredol, er enghraift, arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.
Adolygiad o Wariant	Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob adran yn Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd i ddod. Mae'r cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy fformiwla Barnett.
Cam Gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn: http://wales.gov.uk/about/budget/?skip=1&lang=cy
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu ac nad yw felly'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhilith y Costau Uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.
Cwmpasoedd gwariant	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r cyfyngiadau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r MEGs.
Cyfalaf	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraift adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru gyfyngiadau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Cyllidebu adnoddau	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrariant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.
Cynnig y Gyllideb	Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig a thynnu arian parod, hyd at derfyn penodol, o Gronfa Gyfunol Cymru.
DEL Adnoddau Anghyllidol	Trafodion a gronnywyd ac a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibariant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio DEL adnoddau anghyllidol i gyllido gwario DEL adnoddau cyllidol.
DEL Adnoddau Cyllidol	Trafodion a gronnywyd sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft, tâl, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.
Derbyniadau	Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel adnoddau a dderbynir a chânt eu dangos fel ffigur negyddol.
Dibariant	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei bod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibariant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â DEL ac a adolygir o'r herwydd ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Adroddiad Cyllideb a Chyn-Gyllideb Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhagleni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.
Maes Rhaglen Wariant	O fewn pob MEG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhagleni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu.

**Prif Grŵp
Gwariant
(MEG)**

Caiff DEL Llywodraeth y Cynulliad ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ar hyn o bryd mae 7 ohonynt: Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; Llywodraeth Leol a Chymunedau; Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; Addysg a Sgiliau; yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; Tai, Adfywio a Threftadaeth; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

**Terfyn
Gwariant
Adrannol
(DEL)**

Terfyn y gyllideb aml-flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennywd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant.

Cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol 2011-12

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y
Tŷ*

Cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol

Gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y canlynol:

“1. Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Awdurdodir Llywodraeth Cynulliad Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Comisiwn y Cynulliad

3. Awdurdodir Comisiwn y Cynulliad -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Rannau 1 a 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Rannau 1 a 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

4. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

- (a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;
- (b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac
- (c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

5. Awdurdodir Archwilydd Cyffredinol Cymru -

- (a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 4 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 4 o Atodlen 3;
- (b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2012, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac
- (c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

6. Mae'r categorïau o adnoddau cronus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf."

Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf***Gweinidogion Cymru***

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	5,201,938	898,168
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,259,623	1,300
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	319,932	609,743
Addysg a Sgiliau	1,882,603	97,819
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	315,178	4,450
Tai, Adfywio a Threftadaeth	477,254	79,115
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	361,347	8,500
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru	12,817,875	1,699,095

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Cwmpas	Adnoddau (£'000)	Adnoddau Cronnus (£'000)
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Gwasanaethau'r Cynulliad	32,328	260
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Aelodau'r Cynulliad	16,994	0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,854	6
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,853	8,024
Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	58,029	8,290

Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	5,201,938

I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol. Cyllid refeniw a chyfalaf i Fyrrdau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig; Cyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; benthyciadau i Ymddiriedolaethau'r GIG; taliadau am wasanaethau o dan contract gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol; gwasanaethau meddygol cyffredinol; cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant; ymchwil a datblygu; gwasanaethau iechyd meddwl; triniaeth ar gyfer clefydau croniog; a mesurau i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd; cyllid i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan gynnwys cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Comisiynydd Plant Cymru, strategaethau tlodi plant, gofal plant, chwarae, hawliau plant a phobl ifanc, sefydliadau plant a theuluoedd ac eiriolaeth; cefnogi awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ar gyfer mesurau gofal plant, cefnogi ysgolion bro; cymorth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd; cymorth i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac i wasanaethau cymdeithasol a gofalwyr; gwella gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys ariannu Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE); ar gyfer Cyngor Gofal Cymru; y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE); y Comisiynydd Pobl Hŷn; a chyfraniadau i gyrrff iechyd a gofal cymdeithasol y DU. Cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru; cyllid ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd neu ar eu rhan; gwasanaethau ar gyfer gwella iechyd ac ar gyfer atal salwch, gwneud diagnosis ohono a'i drin; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Llywodraeth Leol a Chymunedau I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol gan gynnwys Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Chyflawnder Cymdeithasol a Thrafnidiaeth. Cyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer llywodraeth leol gan gynnwys taliadau'r Grant Cynnal Refeniw a'r Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) i awdurdodau unedol ac awdurdodau'r heddlu; Grant Cytundeb Gwella ar gyfer awdurdodau unedol; cymorth y Fenter Cyllid Preifat; costau casglu'r NNDR; noddi Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, Panel Dyfarnu Cymru, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru; cymorth i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwaith arolygu; cymorth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio; Gwasanaethau Cyfreithwyr y Trysorlys; grantiau amrywiol i lywodraeth leol ar gyfer gwella gan gynnwys rhaglen Ffynnon; y Cynllun Partneriaeth a gweithgarwch cysylltiedig; hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor a chymorth i bensiynwyr â'r Dreth Gyngor; Bellwin; grantiau cyfalaf tywydd garw; y grant cyfleusterau cyhoeddus; Arian Cyfalaf Cyffredinol; rhyddhad ardrethi busnes. Cefnogi ac arwain yr agenda newid, integreiddio a datblygu perfformiad ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy grantiau a chyllid arall i gyrrff cyhoeddus, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill; rhoi ar waith ein dull gweithredu a nodir yn y datganiad cabinet 'Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: Y Cyfnod Nesaf o Wella Gwasanaethau Cyhoeddus', gyda chyllid i gyflawni cyfres o raglenni galluogi megis y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi, y Fframwaith Perfformiad Integredig, y Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynllun Gofodol Cymru; darparu Arian Cyfatebol o dan Flaenoriaeth 4 o Gronfa Gymdeithasol Ewrop: Moderneiddio a Gwella Ansawdd ein Gwasanaethau Cyhoeddus; cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi'r llywodraeth ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru gan gynnwys noddi Cyfranogaeth Cymru a'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol yng Nghymru; cyllid ar gyfer yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Arolygiaeth Gofal Iechyd yng Nghymru gan gynnwys costau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol, costau lesio ceir, costau rhedeg, cynnal a lesio adeiladau, costau technoleg gwybodaeth a thelathrebu a chostau rhaglenni; noddi Estyn gan gynnwys costau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol, costau cyfalaf a dibrisiant. Cyllid ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a buddsoddi mewn diogelwch Tân cymunedol; cymorth i ddatblygu cymunedau gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a throsglwyddo asedau; taliadau i sefydliadau'r Trydydd Sector a chyrff cyhoeddus i gefnogi'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; cymorth i swyddfeydd post ac undebau credyd; cymorth grant i'r Trydydd Sector gan gynnwys gwirfoddoli a gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol; cynhwysiant ariannol gan gynnwys cyngor ar	4,259,623

hawlio budd-daliadau; gwaith i gefnogi'r lluoedd arfog, cyn filwyr a'u teuluoedd; grantiau i weithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau ac i fynd i'r afael â cham-drin domestig; cymorth i fentrau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol a chyflawnder ieuencid, gan gynnwys ariannu'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Cyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer trafnidiaeth ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, rhedeg, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yng Nghymru; darparu gwasanaethau rheilffordd ac awyr i deithwyr; diogelwch ar y ffyrdd, rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd; cyllido a gweinyddu rhaglenni i awdurdodau lleol a chyrff eraill ar gyfer darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau trafnidiaeth gan gynnwys tocynnau teithio rhatach; cymorth ar gyfer hybu a datblygu beicio; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid i ddarparu cymorth a chyngor i helpu busnesau yng Nghymru i sefydlu, tyfu a datblygu, gan gynnwys darparu cyllid busnes ad-daladwy; datblygu mentrau cymdeithasol a chymunedol; annog a hybu gweithgareddau STEM mewn ysgolion; polisi, ymchwil a gwerthuso economaidd; hybu Cymru fel lleoliad i wneud busnes ac i fuddsoddi ynddo, yn rhyngwladol ac yn ddomestig; hybu allforion o Gymru; darparu eiddo a sealwaith TGCh ar gyfer busnesau gan gynnwys gwelliannau amgylcheddol, gweinyddu a gweithredu prosiectau cronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; digwyddiadau chwaraeon mawr a chymorth i Cyllid Cymru.</p> <p>Gwariant sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, datblygu gwledig, pysgodfeydd a bwyd gan gynnwys iechyd y cyhoedd a choetiroedd. Arian Ewropeaidd ac arian cyfatebol: i gefnogi ffermwyr yng Nghymru, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sengl; rheoli a chyflawni'r mesurau o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru; a chefnogi pysgodfeydd. Gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol; cymorth i sector pysgodfeydd Cymru a gwaith i'w ddatblygu; rheoli, rheoleiddio a gorfodi pysgodfeydd a'r amgylchedd morol; ariannu pwylgorau ac ymchwiliadau i faterion gwledig ac amgylcheddol; cyhoeddusrwydd; cymorth ar gyfer datblygu, cynhyrchu, hybu a marchnata bwyd, gan gynnwys datblygu mecanweithiau cadwyni cyflenwi ar gyfer cynyrrch sector diwydiannau'r tir; ymchwilio i bolisiâu amaethyddiaeth, datblygu gwledig, pysgodfeydd a bwyd a'u gwerthuso, a datblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail iddynt; mesurau i liniaru ar allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector diwydiannau'r tir.</p> <p>Hybu a chynorthwyo twristiaeth yng Nghymru a darparu cymorth i frand Cymru; grantiau cyfalaf i gefnogi'r diwydiant twristiaeth ac unrhyw wariant arall cysylltiedig a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.</p>	319,932

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Addysg a Sgiliau I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a Sgiliau er mwyn ariannu: y Cyfnod Sylfaen, safonau maeth mewn ysgolion; datblygu a rheoleiddio'r cwricwlwm a chymwysterau; gwella perfformiad ysgolion; ariannu arolygiadau; cynghori mewn ysgolion; trechu dadrithiad; effeithiolrwydd ysgolion; arian cyfalaf a refeniw ar gyfer datblygu TG at ddibenion dysgu; cymorth i wella safonau; cefnogi Techniquest; y grant gwisg ysgol; gweithgareddau llywodraethwyr ysgolion; cyfalaf i gefnogi'r seilwaith ysgolion a'r seilwaith ôl-16; cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol; hyfforddi, datblygu a chefnogi athrawon; dysgu dwyieithog; arian cyfalaf a refeniw ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; cefnogi addysg feddygol i israddedigion; cefnogi uno a chydweithredu yn y sector addysg; darpariaeth gyfalaf a refeniw ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 gan gynnwys Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith; ymestyn hawliau a llwybrau dysgu 14-19; cefnogi'r Gwasanaethau Ieuenctid; cyllid i fyfyrwyr a dysgwyr gan gynnwys costau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg; gwasanaethau cyngor ar yrfaoedd; gwella sgiliau sylfaenol; cefnogi mentrau addysg rhwngwladol; ymchwil a gwerthuso addysgol; datblygu sgiliau a dysgu yn y gweithle; dysgu ar gyfer troseddwyr; cefnogi Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg a phrosiectau sy'n hybu'r Gymraeg; hybu addysg a sgiliau; eitemau cysylltiedig nad ydynt yn arian parod ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.	1,882,603

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	315,178
I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; hwyluso, hybu a chyflawni ym meysydd cynaliadwyedd, y newid yn yr hinsawdd ac ansawdd yr amgylchedd; cynorthwyo a hybu cynhyrchu ynni drwy ddulliau carbon isel; effeithlonrwydd ynni, rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy a gwella ansawdd dŵr; darparu ac ariannu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, a mesurau i atal llifogydd, amddiffyn yr arfordir a rheoli risg; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd, rheoli dŵr a rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â gwastraff a chynaliadwyedd gan gynnwys yr Ardoll Agregau; gwaredu, casglu a rheoli gwastraff, cynlluniau ailgylchu, glanhau strydoedd a chredydau treth tirlenwi; rheoli ymbelydredd, llygredd amgylcheddol, ansawdd yr amgylchedd a llygredd sŵn; hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol busnesau, pobl a lleoedd Cymru. Cynllunio, gan gynnwys gwaith achos ar apelau, cyhoeddi dogfennau cynllunio, a chyllid ar gyfer ymchwil; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU, deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir o dan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; darparu cymorth grant, cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthus; gwaith hybu a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod; hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; cadwraeth; iechyd anifeiliaid a phlanhigion; hadau, plaladdwyr a chnydau GM; iechyd y cyhoedd; iawndal ar gyfer da byw; gweithgarwch ar les anifeiliaid; gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol; gweithgarwch i gadw golwg ar glefydau; datblygu technoleg gwybodaeth; arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd; ariannu pwylgorau ac ymchwiliadau i faterion gwledig ac amgylcheddol; cyhoeddusrwydd; cymorth ar gyfer rheoli tir a mesurau coedwigaeth; gan gynnwys gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig; grantiau coetir a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; gwariant cyfalaf a refeniw gan y Comisiwn Coedwigaeth; ymchwilio i bolisiâu materion gwledig a'u gwerthuso a datblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail iddynt; mesurau i liniaru ar	

allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector diwydiannau'r tir; ac unrhyw wariant cysylltiedig neu fân gostau gan gynnwys unrhyw wariant cyfreithiol a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Tai, Adfywio a Threftadaeth I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Dai, Adfywio a Threftadaeth gan gynnwys hybu neu wella diwylliant a lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â Thai, Adfywio a Threftadaeth; gwella cyflenwad ac ansawdd y tai sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys safon tai yr awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gwella'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai; caffaer, lesio, datblygu a chynnal a chadw tir ac adeiladau; trosglwyddo stoc tai; cymorth ar gyfer modelau cymunedol cydfuddiannol ac er mwyn meithrin gallu; tai cymdeithasol; cymorth ar gyfer gwaith adfywio ffisegol gan gynnwys ardaloedd adnewyddu tai a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth; cefnogi pobl; atal a mynd i'r afael â digartrefedd; darparu grantiau ar gyfer gwaith addasu a chyfleusterau er mwyn i bobl fedru aros yn eu cartrefi eu hunain; rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; polisi adfywio a gweinyddu polisiau a grantiau gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU, deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir o dan gronfeydd strwythurol y CE; cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; gwaith hybu a chyhoeddusrwydd; rhoi cymorth ariannol i gefnogi diwylliant, chwaraeon, y cyfryngau a chyhoeddi; a'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys ariannu Amgueddfa Cymru; arian i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; arian i Gyngor Celfyddydau Cymru; arian i Ganolfan Mileniwm Cymru; arian i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; arian i Gyngor Llyfrau Cymru; arian i Gyngor Chwaraeon Cymru a sefydliadau sy'n hybu chwaraeon a ffyrdd egniol o fyw ledled Cymru; arian i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfarwyddiadau polisi i ddosbarthwyr y Loteri; arian i gefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd nad ydynt yn rhai cenedlaethol a phrosiectau lleol a chenedlaethol sy'n ceisio hybu ac ehangu mynediad i drysorau diwylliannol; gwarchod, diogelu, cynnal a chyflwyno amgylchedd hanesyddol Cymru er mwyn sicrhau ei fod ar gael i bawb a'i fod yn cael ei ddiogelu'n dda, gan gynnwys gwariant cyfredol a chostau rhedeg cysylltiedig a chostau staff Cadw a gwariant cyfalaf ar gyfer grantiau a chaffael asedau cyfalaf; ariannu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; unrhyw wariant yn ymwneud â gwarchod, diogelu, cynnal a chyflwyno gweddillion archaeolegol yng Nghymru, henebion yng	477,254

Nghymru, adeiladau a lleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaerniol yng Nghymru a llongddrylliadau hanesyddol yng Nghymru; unrhyw wariant ar gelfyddyd a chrefftau sy'n ymwneud â Chymru ac ar weithgareddau a phrosiectau diwylliannol sy'n ymwneud â Chymru; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	361,347

I'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar wariant sy'n gysylltiedig â gweinyddu a chostau rhedeg gan gynnwys: costau cyflogau staff; taliadau yswiriant gwladol; cyfraniadau pensiwn; ad-dalu treuliau; iawndal; benthyciadau i staff; llogi a lesio ceir; costau rhedeg yr ystâd sifil a buddsoddi ynddi; lesio, rhentu a chaffael safleoedd; gwariant gweinyddol cyffredinol; gwariant ar TG a thelathrebu; gwariant ar hwyluso llywodraeth; gwariant refeniw a chyfalaf gweinyddol arall; penodiadau cyhoeddus; galluogi a hybu llywodraeth agored; cefnogi gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil a gwerthuso ystadegol; hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; y gwaith parhaus i gynllunio, mynchy u a marchnata digwyddiadau cyfathrebu mewnol corfforaethol ynghyd â chyfathrebu polisi'r Llywodraeth a sut i weithredu'r polisi hwnnw, yn allanol; cyllid ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, ac ar gyfer datblygu cyfansoddiadol, gan gynnwys costau sy'n deillio o unrhyw refferendwm; cynnal digwyddiadau o bwys cenedlaethol; cynllunio gofodol; costau ymchwiliadau cyhoeddus; cyllid i gyrff cyhoeddus ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd; ariannu Gwerth Cymru, cyfnewidcymru a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru; taliadau i gefnogi datblygu tramor a chysylltiadau tramor; grantiau a chymorth ariannol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; cefnogi prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; cyllid rhagleni ar gyfer cydraddoldeb a chyflle cyfartal ac i wella cynhwysiant cymdeithasol a chyflawnder cymdeithasol; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.

Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronus gan Weinidogion Cymru

Rhan 1: Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

Colofn 1	Colofn 2
<i>Categori adnoddau cronus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y ceir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae adnoddau cronus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; cynlluniau creu incwm; Incwm Yswiriant Gwladol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo; ac adennill TAW.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
Cyfanswm yr incwm (£000)	898,168

Rhan 2: Llywodraeth Leol a Chymunedau

Colofn 1	Colofn 2
<i>Categori adnoddau cronus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
